CADWYN BRO

Cylchgrawn Eglwysi Bro Dinbych

Gweinidog: Y Parch. S. Wayne Roberts 01745 890845
Golygydd: wayne.roberts1058@btinternet.com

Mehefin 2014 **Rhif 046**

Mae'n anodd credu fy mod yn gosod Cadwyn Bro mis Mehefin, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar y trothwy a hanner y flwyddyn bron a mynd heibio.

Dymuniadau gorau i bawb fydd yn cystadlu yn y Bala, a diolch i bawb fu'n hyfforddi a paratoi'r cystadlaethau.

Cawn seibiant byr wedyn ac yna fe ddaw'r amser i deithio i Lanelli cartref yr Eisteddfod Genedlaethol am eleni. Wedi mwynhau bwrlwm a llwyddiant yr Eisteddfod yma yn ein bro llynnedd, cawn gyfle i gefnogi trigolion Llanelli i fwynhau yr un llwyddiant.

Os nad ydych eisiau mynd mor bell, fe fydd cyfle i chi ymweld a Llangollen ac amryw o bethau yn digwydd yn ein bro hefyd yn erfyn am eich cefnogaeth.

Mwynhewch pob cyfle i fwynhau diwylliant ym mhob amgylchiad a trysorwch y profiadau.

Calendr Mehefin.

1af Cymanfa Ganu Dathlu 150 mlynnedd yr achos ym
Methesda'r Wyddgrug am 6-00. Darlledir y Gymanfa ar Dechrau Canu Dechrau Canmol.

2il Cyfarfod Gweddi am 2-00 o'r gloch yn y Capel Mawr.

7fed Te yn yr ardd ym Modheulog Gellifor 2-00 – 5-00
Elw at Gapel Gellifor.

8fed Te yn yr ardd yn Ger y Llan Llandyrnog 2-00– 5-00
Elw at Tý Gobaith.

12fed Taith Aelwyd y Chwiorydd i Tý Mawr Wybrnant
Bydd Cart y Plwyf yn cychwyn am 12-30.

13eg Cinio'r Fro yn y Capel Mawr am 12-00.
Siaradwr wedi'r Cinio Dr Hywel Watkins.

19eg Cytun Llandyrnog yn Eglwys Llangwyfan 7-00.

28ain Cyngerdd Mynediad am Ddim 7-30
Theatr John Ambrose Rhuthun
Tocynnau Siop Clwyd ac Elfair.

Gorffennaf

6ed Gymanfa Ganu yng Ngellifor am 10-30
Arweinydd Dilwyn Price.

12fed Te Prynhawn yng Nghapel y Pentre

Yr Eglwysi. Mis Mehefin

Bodfari

9fed Cinio Cynnil 12-00.
15fed Gweinidog 11-15 Cymun.
22ain Parch Eifion G Jones 2-00.

Brwcws

Llywydd y Mis:Carolyn Thomas.
Organnydd: Edna Williams.
1af YS 10-00 Gweinidog 2-00 Cymun.
8fed YS 10-00 Parch Nesta Davies 2-00.
15fed YS 10-00 Mr Gron Ellis 2-00.
22ain YS 10-00 Mr Norman Clos Parry 2-00.
29ain YS 10-00 Parch Meurig Dodd 2-00.

Bu Cai Llwyd Jones yn Arholiad Llafar y Plant yng Nghapel y Dyffryn. Da iawn Cai.

Llongyfarchiadau i Gwen Edmunds fu'n canu gyda "Only Kids Allowed" yn Ne Affrica yn ddiweddar.

Daeth tymor Chwiorydd y Fron a'r Brwcws i ben gyda ymwewliad a Chapel Nercwys ac yna swper yn y Griffin, Llanbedr. Mae ein diolch yn fawr i Mrs Dilys Davies, ein Llywydd, Mrs Eiri Jones, ysgrifennydd, a Mrs Carys Jones am eu gwaith eto eleni.

Dyffryn

Llywydd y Mis: Gwilym C Evans
1af YSO 9-30 Mr Thomas Alun Williams 10-00
8fed YSO 10-30 Parch Huw Pritchard 11-15
15fed Gweinidog – Cymun 5-00
22ain YSO 10-30 Parch R W Jones 11-15
29ain YSO 9-30 Parch Elwyn Richards 10-00

Cyfarfod Blynyddol Cytun
Yn Eglwys Llangwyfan Nos Iau Mehefin 19eg am 7.00

Bore Goffi
Fe gynhelir Bore Goffi er budd y Capel yn yr Ystafelloedd Coco Bore Sadwrn Mehefin 28ain am
10-00. Dewch i gefnogi.

Gellifor

1af Mr Thomas Alun Williams 11-15
8fed Parch Huw Pritchard 10-00
15fed Gweinidog – Cymun 10-00
22ain Parch R W Jones 10-00
29ain Parch Elwyn Richards 11-15

Tê yn yr Ardd
Cynhelir Tê yn yr Ardd ym Modheulog Gellifor 2-4 drwy ganiatad Dr Idris Humphreys.
Dewch i fwynhau pnawn braf.

Y Glyn

15fed Gweinidog – Cymun 2-00

Rhaghysbysiad

Cyngerdd yng Nghapel y Fron Nos Sul Awst 31 am 7-00 Dafydd, Ynyr ac Elis Ela a Cadi.Cyfeilydd Brenda Jones Tocyn £5-00 Oedolion Plant Cynradd £2-00

Prion

1af Parch Dafydd Hughes 9.30 Llanrhaeadr
8fed Gweinidog 10-30
15fed Cyfarfod Gweddi 10.00
22ain Parch Nesta Davies 9-30
29ain Mr Aled Lewis Evans 10-30

Pentre.

1af Parch Dafydd Hughes 9-30
8fed Gweinidog 9-30 Cymun
15fed Ysgol Sul 9-30
22ain Parch Nesta Davies 10-30
29ain Mr Aled Lewis Evans 9-30

Ymweliad y Chwiorydd.

Nos Iau Mai 22ain aeth y Chwiorydd i ymweld a Capel yr URC yn Llandrillo yn Rhos. Roedd yr aelodau wedi paratoi Swper blasus ar ein cyfer a paned. Wedyn cawsom wahoddiad i ymuno hefo nhw mewn astudiaeth Beiblaidd. Noson braf iawn o gymdeithasu.

Cofion

Erbyn hyn mae Rhiannon Jones wedi dod gartre o'r Ysbyty, ac yr ydym yn dymuno gwellhad buan iddi hi

Capel Mawr, Seion a Fron.

Llywydd y Mis:Gwilym Luke Jones
Wrth y drws:Eric Howells,Bedwyr Griffiths.
Casglyddion:Eric Howells, Bedwyr Griffiths,Alun Jones.
1af Gweinidog Cm 10 Cymun, Fron 5-30
Doris Williams,Eiri Jones, Gwyneth Morris.
Blodau: Sian E Jones Mair Roberts
Llestri Cymun: Mair Jones a Helena Williams.
8fed Parch Nesta Davies CM 10-00 F 5-30
Catrin Warren,Julie Howatson, Mair Roberts.
Blodau Eleri Jones
15fed Gron Ellis, F 10-00 CM 5-30
Dorothy Rogers, Megan Williams, Gwyneth Morris.
Blodau Nansi Jones
22ain Norman Clos Parry Fron10
Richard LL Jones CM 5-30
Doris Williams, Iona Edwards, Mair Roberts.
29ain Parch Meurig Dodd CM10 F 5-30
Catrin Warren, Eiri Jones, Gwyneth Morris.
Blodau Alwen Rompage. Helena Morris.

Glanhau'r Capel : Richard a Jois Snelson.

Colli Aelod

Yn ystod y mis bu i Capel Mawr golli un o'r aelodau hynaf, sef Mrs Gwyneth wynne, Dolwen, gynt o Faes yr Eglwys. Bu'n ffyddlon iawn i'r oedfaon a gweithgareddau'r capel tra medrai a theimlwn hiraeth ar ei hôl. Cydymdeimlwn â'r teulu a'i chyfeillion yn eu profedigaeth a meddyliwn amdanynt yn eu galar.

Dathlu Canmlwyddiant.
Ar brynhawn Sul. Mai4ydd, cafwyd te parti yn Festri'r Capel Mawr i ddathlu pen blwydd Mrs Gaynor Williams, 15 Parc Mytton, yn gant oed. Y mae Mrs Williams yr un mor sionc a heini ag erioed ac yn llawn o atgofion byw am y gorffennol. Dymuniadau gorau i chi Mrs Williams.

LLongyfarchiadau.
Gwobrwyd y plant canlynol Alys Roberts, James Williams,Sara williams, Gruff Hargreaves, Mared Hargreaves, Sion Jones, Owain Jones, Osian Jones, yn y Cyfarfod Gwobrwyo'r Henaduriaeth yn Llansannan.

Blychau Cenhadol.
Diolch i chwiorydd sydd wedi bod yn brysur lemwi blychau a rhai sydd wedi cyfrannu at waith y Genhadaeth ac y mae Carys wedi anfon £50 i'r Sasiwn.

Cydymdeimlad.
Cydymdeimlwn a Walter Roberts a'r teulu. Walter wedi colli ei Fam ym Minffordd Penrhyndeudraeth. Hefyd Emyr Howatson wedi colli ei briod Magi Howatson, y mae ein cydymdeimlad a'r teulu yn eu profedigaeth.

Cymdeithas y Chwiorydd Fron a Brwcws.
Ar Nos Fercher Mai 21ain aeth nifer draw i Capel Soar, Nercwys i weld y Capel ar ei newydd wedd. Croesawyd pawb gan Y Parch Huw Powell Davies a cawsom anerchiad ganddo am hanes y Capel. Wedyn rhoddodd un o'r aelodau y capel fanylion o sut y cafodd y gwaith ei gwblhau. Cawsom baned yno cyn mynd ymlaen i'r Griffin yn Llanbedr am swper blasus iawn.
Bydd y cyfarfod blynyddol i drefnu rhaglen y tymor nesaf yn Festri y Fron ar Nos Fercher Mehefin 18fed am 7 o'r gloch.

BUPA 10km Manceinion.
Bu Nia Angharad a Celi Davies yn rhedeg i godi arian at Ymchwil Cancr Cymru a'r Gymdeithas Anafiadau Cefn ar 18fed o Fai. Roedd yn ddiwrnod poeth iawn- ddim yn dywydd delfrydol i redeg. Gorffennodd y ddwy yn saff o fewn rhyw awr a chwarter yng nghanol miloedd o fobl.
Hyd yn hyn maent wedi codi dros £900 ac mae'r arian yn dal i ddod i mewn. (Os hoffech roi arian at yr achosion gallwch wneud ar www.virginmoneygiving.com/team/celinia10km)
Hoffai'r ddwy ddiolch o galon i bawb sydd wedi bod yn hael iawn yn eu noddi. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Aelwyd y Chwiorydd.
Dechreuwyd y cyfarfod gan Tom Williams. Siaradodd am y rhai fu'n gyfrifol am gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg a'n dyled iddynt am gyflawni'r gwaith pwysig hwn.
Rhoddodd Helena Williams y llywydd groeso cynnes i'n gŵr gwadd sydd yn aelod gyda ni.
Mae Dyfed Jones yn rhedeg busnes yn dref fel gof, ond hwylio oedd testun y sgwrs y tro hwn. Yn 2002 cafodd waith am wyth mis ar longau hwylio yng Nghernyw. Mae'r porthladd yn Charlestown yn cael ei ddefnyddio erbyn hyn i wneud ffilmiau ar hen long hwylio. Un o'r ffilmiau gafodd ei gwneud yno oedd un o'r gyfres Hornblower gyda Ioan Gruffydd yn serenu a Dyfed mor lwcus a bod yn uno'r extras arni!
Roedd wedi cael profiadau diddorol ac anturus iawn ac wedi dysgu sut i drin yr hwyliau a phopeth arall sydd ar y llongau hyn – hyd yn oed dringo'r mast cant ac ugain o droedfeddi uwchlaw'r dec. Hynny yn aml ar y mor stormus! Roedd pawb wedi mwynhau'r sleidiau a chlywed yr hanes, a dotio at ddewrder Dyfed.
Diolchwyd iddo gan Doris Williams ac i Olwen Roberts a Dorothy Bartley fu'n paratoi'r paned.
Llongyfarchwyd Eirwen Evans oedd yn dathlu, a'i merch yn Sidney Awstralia yn "nyrs y flwyddyn"!

Tremeirchion.

1af Parch John Owen 11-15
8fed Karen Owen 11-15
15fed Dafydd Iwan 11-15
22ain Pererindod i Faldwyn i Dolwar Fach.
29ain Gweinidog 9-30

Trefnant

Llywydd y mis: Tudor Mars Jones.
1af Parch John Owen 10-00 a 3-00 YS 11-00
Blodau Rachel Jones
8fed Karen Owen 10-00 YS 11-00
Gwasanaeth Gweddi a Mawl 3-00
Blodau Gwennan Davies
15fed Dafydd Iwan 10-00 YS 11-00
Gwasanaeth a Gweddi a Mawl 3-00
Blodau Betty Squire
22ain Pereindod yr Eglwys i Dolwar Fach.
29ain Gweinidog **10-30** Paned i ddilyn.
Gwasanaeth Gweddi a Mawl 3-00
Blodau Morfudd Evans.

Cyfarfod Gweithgareddau
Ni fydd y grwp yn cyfarfod yn ystod misoedd yr Haf – byddwn yn ail ddechrau mis medi.

Dymuniadau gorau
I bawb sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar, ac i Dorothy Jones a Hywel Hughes ar ddathliadau arbennig ym Mis Mehefin.

LLongyfarchiadau
I blant yr Ysgol Sul ac i Eileen Humphreys ac Eleri Jones am gynrychioli yr Oedolion yn Noson Dathlu gwaith Ysgolion Sul

yr Henaduriaeth ym Metws yn Rhos. Da iawn chi – roedd canmoliaeth arbennig i'r holl waith.

TAITH Y CYLCH CINIO I SOUTHPORT.
Eleni Dydd Llun tan Ddydd Gwener Tachwedd 24-28
Pris y Gwyliau £225 a Sengl £20 ychwanegol.
Enwau a Blaendal o £50
Sieciau yn daladwy i S WAYNE ROBERTS y tro yma.

Cadwyn Bro Gorffennaf ag Awst. Manylion i law erbyn Dydd Mawrth Gorffennaf 22ain os gwelwch yn dda.

NEGES Mai GAN NESTA

Roedd llawer o ddyddiau Gwyl ar ddydd Llun yn ystod y mis yma a bu llai o fynd ac Agor y Llyfr i mewn i 'r ysgolion, ond mwy o baratoi a threfnu., er mwyn gwneud yn siwr bod y storiau yr ydym yn cyflwyno yn ffitio i mewn i Faes Llafur yr Ysgolion a'u anghenion hwy. Hoffai'r Athrawes y Cyfnod Sylfaen – y plant bach yn Ysgol Twm o'r Nant pe bai modd iddynt hwy gael gwasanaeth tebyg ac felly bum yn ymchwilio i'r ffordd y gallwn ddefnyddio Pypedau a siwr y byddaf yn galw ar Bet Roberts ac Eleri Jones am help gyda 'r gwnio eto. Os oes gennych chi awydd gweithio un o'r Pypedau byddwn wrth fy modd yn cael eich help o dro i dro. Hefyd

Paratoi at gyflwyno Stori'r Pentecost

Ymuno a'r Plant a rhieni yn y Gweithdy llafar a Chan ar Fai 11eg

Ymweld a'r' rhai'n gaeth yn eu tai a'r cartrefi preswyl

Helpu yn y Banc Bwyd

Ymuno a Merched Trefnant ar Daith i Garthewin a Chapel y Fron i Nercwys

Cymeryd rhan yng Nghyfarfod Gweddi y Gweinidogaeth IachauCytun

Cynrychioli'r Henaduriaeth ym Mhwyllgor Adran Plant a Ieuenctid yn Bow Street

Paratoi at Ysgol Haf y Weinidogaeth Iachau yn Cefn Lea o Fehefin 30ain

Hyd Gorffennaf 3ydd (croeso ichi ddod fel Cynrychiolydd yr Henaduriaeth)

Cofiwch bod croeso ichi ymuno gyda mi yn y cyfarfod Gweddi Cytun yn Eglwys Santes Fair 12.00 ar ddydd Mawrth, Mehefin 10fed a Chyfarfod Gweddi Gweinidogaeth Iachau Cytun . am 7.00 yn Sant Thomas nos Lun 16 Fehefin.

Pob Bendith

Nesta

Lle roedd Cwmni Drama Garthewin wedi bod yn perfformio Dramau Saunders Lewis 40ml yn ol.

Merched y Fron yn mwynhau gweld Capel Nercwys ar ei newydd wedd.